# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar y 10fed o Hydref 2017 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:** Cynghorwyr Carys Morgan (Cadeirydd), Gerallt Davies, Wyn Jones, Ruby Williams, Eiddwen Merritt a Jocelyn Andrew.

**Hefyd yn bresennol:** Y Clerc.

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Barry Owen, Garym Roberts a Wyn Evans.

**Datgelu buddiannau:** Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:** Darllenwyd cofnodion Mis Medi a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**

Dim.

**Materion Cynllunio:**

Rhif Cais: A170861.
Tir yn Ffynnon Ddewi, Ffosyffin.
Amrywio amod 2 o ganiatâd Cynllunio.
Dim gwrthwynebiad.

**Sesiynau Galw heibio Ailgylchu**

Darllenwyd lythyr yn ein hysbysu am gyfle i ddod a Cherbyd Addysgiadol yr Adran Wastraff i fynychu ein cymuned ar rota fisol neu 6 wythnos lle byddai trigolion yn gallu ymweld a'r cerbyd i gael mwy o wybodaeth am wasanaeth ailgylchu ac hefyd fydd eitemau megis bagiau ailgylchu, biniau bwyd a leinwyr i'r biniau bwyd ar gael i'w casglu o'r cerbyd yn ogystal â hyn bydd modd i drigolion ddod a batris ac eitemau trydanol bychain i'w ailgylchu. Penderfynwyd i gymeryd mantais o'r gwasanaeth hyn ac i'r clerc wneud ymholiadau pellach.

**Ymgynghoriad ar ganllaw Arolygon Cymunedol**

Darparwyd draft gan y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru er mwyn cefnogi mwy o gysondeb o ran y modd y cynhelir arolygon cymunedol. Gofynwyd i'r aelodau i'w ddarllen a'i ystyried.

**Ymgynghoriad ar Gynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus**

Mae draft yr uchod allan ar gyfer Ymgynghoriad Cyhoeddus. Gwahoddiwyd i'r pwyllgor i'w ddarllen a gwneud sylwadau os bydd angen.

**Un Llais Cymru – Pwyllgor Ardal**

Hysbyswyd y pwyllgor y bydd cyfarfod ar Nos Fercher 18fed o Hydref 2017 yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Penmorfa, Aberaeron gan wahodd unrhyw un o'r aelodau i'w fynychu.

**Ystyried Cais Ariannol**

Derbyniwyd lythyr o Ysgol Gyfun Aberaeron yn gofyn am gymorth ariannol i'w helpu i gynnal sioe gerdd 'Hairspray' ym mis Tachwedd. Penderfynwyd yn unfrydol i roi rhodd o £200 at yr achos.

**Unrhyw Fater Arall:**

Soniodd y Cynghorydd Jocelyn Andrew bod yr arwydd sydd ynghanol pentref Dderwen Gam angen ei drwsio a'i beintio. Penderfynwyd i'r clerc i wneud ymholiadau i CADW ac i'r Adran Briffyrdd.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.20.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 14eg o Dachwedd.